




HELFA GELF ART TRAIL



Gweithgareddau celf o gwmpas yr amgueddfa
Art activities around the museum



CROESO I LYFRYN CELF AMGUEDDFA LECHI CYMRU

Mae'r llyfryn hwn yn llawn gweithgareddau celf sy'n ymwneud â'r amgueddfa a'r diwydiant llechi. Mae'n arbennig o addas ar gyfer pobl ifanc a phlant dros 7 oed – ond mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb roi cynnig arni!

Peidiwch â phoeni os nad ydych yn artist o fri – dim ond i chi fwynhau! Bydd gofyn i chi grwydro'r amgueddfa i wneud ambell gweithgaredd - beth am i chi gymryd map o'r siop i ffeindio'ch ffordd o gwmpas?

Cofiwch nad oes raid i chi wneud pob un ar unwaith – mae croeso i chi fynd â'r llyfr efo chi i'w orffen adref, neu ddod yn ôl rhywbryd eto i wneud mwy.

Cynhyrchwyd y llyfryn hwn diolch i roddion ymwelwyr.

WELCOME TO THE NATIONAL SLATE MUSEUM'S ART BOOKLET

This booklet is full of art activities linked to the museum and the slate industry. It's particularly appropriate for young people and children over 7 years of age – but anyone is welcome to have a go!

Don't worry if you don't consider yourself an artist – just enjoy! You'll need to wander around the museum to do a few of the activities – why not pick up a map from the shop to help you find your way around?


Remember that you don't have to do all the activities at once – you're welcome to take the booklet home to finish, or maybe come back another day to do some more.

This booklet was made possible thanks to visitor donations.



Kyffin Williams

AMGUEDDFA LECHI CYMRU NATIONAL SLATE MUSEUM



Ceisiwch ail-greu arddull Kyffin yn y blwch isod, gan ddefnyddio'r amlinelliad fel man cychwyn.

Try to re-create Kyffin's style in the box below, using the outline as a guide.

Mae Kyffin Williams wedi defnyddio pensil a dyfrlliw i wneud y llun yma o'r amgueddfa. Edrychwch ar y llinellau pensil trwm a'r arddull rhydd mae wedi ei ddefnyddio.

Kyffin Williams has used pencil and watercolours to create this picture. Look at the heavy pencil strokes and the fluid style he has here.



Roedd Kyffin Williams (1918-2006) yn un o arlunwyr mwyaf enwog Cymru. Teimlai'n lwcus ei fod wedi ei eni mewn gwlad oedd yn cynnig cymaint o ysbrydoliaeth iddo fel arlunydd.

Kyffin Williams (1918-2006) was one of Wales's most well-known artists. He felt lucky to have been born in a country which provided him with such inspiration as an artist.


- Defnyddiwch pensil graffit i ategu marciau fel sydd yn y darlun
- Dewiswch unrhyw ddeunydd celf i ategu lliw

- Use graphite pencils to add the dark strokes as in the picture
- Choose any art materials to add colour



Luned Rhys Parri

CHWARELWR QUARRYMAN



Dewiswch wyneb i'w luniadu a cheisiwch gopïo arddull Luned yn y blwch gwag. Gallech ddewis llun o gasgliadau'r Amgueddfa neu edrychwch ar wynebau o'ch cwrpas am ysbrydoliaeth.

Choose a face to draw and try to imitate Luned's style in the box below. You could choose a picture from the Museum's collections or look at faces around you for inspiration.



- Darluniwch amlinelliad o wyneb
- Defnyddiwch ddeunyddiau e.e. papur brown, i greu gwead i'r wyneb - gallwch ei gadw'n fflat neu ei adeiladu i'w wneud yn 3D
- Ategwch liw drwy ddefnyddio pasteli olew - neu lwch llechi fel y gwnaeth Luned yn ei gwaith hi


- Draw an outline of a face
- Use materials e.g. brown paper to create texture - you can keep it flat or build it up to make it 3D
- Add colour with the oil pastels - or with slate dust as Luned has in her work

Artist o ogledd Cymru ydy Luned sy'n mwynhau arbrofi gyda deunyddiau gwahanol. Wyddoch chi ei bod wedi defnyddio llwch llechi yn y llun yma?

Luned is an artist from north Wales who enjoys experimenting with different materials. Did you know that she used slate dust in this painting?

Sydney Curnow Vosper

SALEM



Darganfod y Dirgelion: ewch i gael golwg agosach ar y llun yma yn Nhŷ'r Prif Beirianydd a darluniwch y dirgelwch welwch chi!

Picture within a Picture: take a closer look at this painting hanging in the Chief Engineer's House and see if you can find any 'hidden' images - then draw what you see.

Mae'r llun yma yn un o luniau enwocaf Cymru. Mae gan filoedd o gartrefi'r wlad brint ohono ar y wal.

Y rheswm am hyn oedd i berchennog y cwmni sebon *Sunlight* gynnig y print i bawb fyddai'n prynu 7 pwys o'i sebon. Golygai hyn y gallai hyd yn oed y werin bobl dlawd fforddio i gael darn o gelf yn eu cartrefi.

This picture is one of the most famous paintings in Wales. Many homes across the country have a print of it on the wall.

The reason for this is that the owner of the *Sunlight* soap company offered the print to everyone who bought 7lbs of their soap. This meant that even the poorest people could afford a piece of art in their homes.



Mae'r llun yma erbyn hyn yn cael ei weld fel eicon o Gymreictod.

This painting is by now a Welsh icon.

Welwch chi wyneb diafol yn unrhyw le yn y llun?
Can you see a devil's face anywhere in the picture?


Welwch chi ysbryd yn y ffenest?
Can you see a ghost in the window?

Tydy pawb ddim yn gweld yr un pethau yn yr un ffordd! Does dim cywir nac anghywir mewn celf.

Not everybody sees everything in the same way! There's no right and wrong in art.

Henry Hawkins

CHWAREL PENRHYN 1832 PENRHYN QUARRY 1832



Dewch o hyd i'r llun yma ac edrychwch yn fanwl...
Find this picture and take a closer look...

Sut ddarlun o'r chwarel mae Hawkins yn ei gyfleu? Rhowch gylch am y geiriau addas ac ychwanegwch rai eich hun.

swnlllyd

caled

peryglus

anferth

diwydiannol

budr

naturiol

braf

Chwarel Penrhyn oedd y chwarel fwyaf yn y byd ar un adeg – mae wedi'i lleoli ger Bethesda, yr ochr arall i'r mynydd sydd uwchben yr amgueddfa.



What impression does Hawkins create of the quarry? Circle any appropriate words and add ones of your own.

huge

dangerous

noisy

dirty

relaxing




industrial

jagged

natural

Penrhyn Quarry was the largest quarry in the world at one time - it lies near Bethesda, the other side of the mountain that you can see above the museum.


Mae na rai cymeriadau yma na fuasech chi'n ddisgwyl eu gweld mewn chwarel - fedrwch chi ddod o hyd iddyn nhw yn y darlun? Pwy ydyn nhw tybed a be' maen nhw'n ei wneud yno?



There are some characters here that you wouldn't expect to see in a quarry - can you find them in the painting? Who do you think they are and what are they doing there?

Peter Prendergast

FFOWNDRI FOUNDRY



Dewiswch fan yn yr amgueddfa i greu llun gan ddefnyddio'r un arddull â Peter Prendergast.
Choose somewhere in the museum and create a picture in the same style as Peter Prendergast.

Roedd Peter Prendergast (1946-2007) mwyaf adnabyddus am ei ddarluniau mawr mynegiadol o ardaloedd y chwareli.

Peter Prendergast (1946-2007) was best-known for his large expressionist paintings of the quarrying districts.




Mae'r llun yma wedi ei greu yn yr Amgueddfa - fedrwch chi ffeindio lle? Ysgrifennwch eich ateb isod.

This picture has been created in the museum - can you find where? Write your answer below.

Mae'r arlunydd wedi defnyddio paent, pasteli a golosg yn y llun yma.

The artist has used paint, pastels and charcoal to create this picture.




Sylwch pa mor bendant ac amlwg ydy llinellau yr arlunydd yn y darlun. Fedrwch chi dynnu llinellau fel hyn heb bren mesur?

Notice how definite and marked the artist's lines are in this painting. Can you draw lines like these without a ruler?

M.E. Thompson


YR EFAIL CHWAREL PEN-YR-ORSEDD THE SMITHY PEN-YR-ORSEDD QUARRY



Eich cyfle i groeslinellu: defnyddiwch pensil i greu cysgod ar yr einion, fel y gwelwch chi yng ngwaith M.E.Thompson.
Have a go at crosshatching: use a pencil to create a shadow on the anvil, as M.E. Thompson has done in her work.

Fedrwch chi ffeindio'r Efail yn y Gilfach Ddu? Be' am i chi sefyll gyda'r un persbectif â'r artist - be ydych chi'n ei weld yn yr Efail heddiw?

Can you find the Smithy here at Gilfach Ddu? Why don't you go to our Smithy and try to see things from where the artist would have stood - what can you see today?



gweithwyr
workers

tân
fire

bachyn
hook

gordd
mallet

dril
drill

einion
anvil

cath
cat

Roedd Mary E. Thompson (1896-1981) yn mwynhau braslunio yn chwareli Gogledd Cymru - byddai'n treulio oriau yn braslunio yng nghanol y dynion a'r peiriannau.

Mary E. Thompson (1896-1981) enjoyed drawing in the quarries of North Wales -she would spend hours sketching amongst the men and the machines.


Mae'r arlunydd yn creu cysgodion drwy'r dechneg o groeslinellu. Rhowch gynnig arni yn y bocsys isod.

The artists creates shadows by crosshatching. Have a go in the boxes below.



tywyll
dark

golau
light




I greu cysgod tywyll, dylai'r croeslinellau fod yn agos iawn at ei gilydd.

To create a dark shadow, the lines of the crosshatching should be very close together.

PATRWM DINORWIG

DINORWIG PATTERN




Gorffennwch y ffenest isod gan ddilyn yr un patrwm, yna dyluniwch batrwm newydd ar gyfer eich ffenest eich hun yn y blwch gwag.
Finish the window below, following the same pattern, then design a new pattern for your own window in the empty box.

Mae yna lot o batrymau gwahanol yma yn y Gilfach Ddu - a chofiwch fod pwrpas i bob un patrwm. Mae'r patrwm yn y ffenestri er mwyn arbed arian a dweud y gwir!

Ewch i ofyn i un o weithwyr yr amgueddfa sut fod y patrwm arbennig yma, sef **Patrwm Dinorwig**, yn gallu arbed arian.

There are many different patterns here in the workshops of Gilfach Ddu - and remember that every pattern has a purpose. The window pattern was actually created to save money!

Go and ask one of the museum workers how this particular pattern, **Dinorwig Pattern**, could save money.




Ydych chi'n medru gweld y ffenest yma o lle ydych chi'n sefyll?

Can you see this window from where you're standing?

Gwnewch y ffenest yma'n lliwgar

Make this window colourful




Sylwch pa mor gymesur ydy Patrwm Dinorwig. Fedrwch chi greu patrwm cymesur?

Notice how symmetrical the Dinorwig Pattern is. Can you create a symmetrical pattern of your own?

Ifor Pritchard

Y CABAN THE CABAN



Ewch draw i'r Caban. Ceisiwch ail-greu bwrllwm amser cinio y chwarelwyr drwy dynnu llun yn y bocs. 
Go to the Caban and try to re-create the hurly-burly of the quarrymen's lunchbreak in the box below.

Dyma lun o weithwyr yn y Caban. Byddant yn ymgynnull yma amser cinio i fwyta, yfed tê a sgwrsio am bopeth dan haul. Tybed pam mae rhai o'r dynion yn chwerthin?

Sylwch ar wead y llun yma. Sut ydych chi'n meddwl mae'r artist wedi creu'r effaith?



This is a picture of the 'Caban' – the quarrymen's **canteen where** the quarrymen would meet to eat their lunch, drink tea and discuss the issues of the day. What has made some of the men laugh do you think?

Look at the texture of the painting. How do you think the artist has created this effect?

Atgofion ei blentyndod yn Nyffryn Nantlle ysbrydolodd Ifor Pritchard (1940 – 2010) i gynhyrchu lluniau o fro'r chwareli a'u pobl.

It was his childhood memories of the Nantlle Valley that inspired Ifor Pritchard (1940 – 2010) to paint pictures of the quarrying community and its people.

Gwrandewch ar y lleisiau. Allwch chi ddychmygu sut le fyddai wedi bod yma?

Sylwch ar y stôf a'r cotiau gwlyb yn sychu. Beth arall ydych **chi'n weld?**

Listen to the voices. Can you imagine what it would have been like to be here?

Look at the stove and the coats drying on the hooks. What else can you see?

Cydnabyddiaeth Acknowledgements

AMGUEDDFA LECHI CYMRU : KYFFIN WILLIAMS ©Amgueddfa Cymru

NATIONAL SLATE MUSEUM : KYFFIN WILLIAMS ©Amgueddfa Cymru - National Museum of Wales

CHWARELWR : LUNED RHYS PARRI ©Luned Rhys Parri

QUARRYMAN : LUNED RHYS PARRI ©Luned Rhys Parri

SALEM : SYDNEY CURNOW VOSPER ©Amgueddfeydd Cenedlaethol Lerpwl, *Oriel Gelf Walker*

SALEM : SYDNEY CURNOW VOSPER ©National Museums Liverpool, *Walker Art Gallery*

CHWAREL PENRHYN : HENRY HAWKINS (1822-80) ©NTPL / John Hammond

Casgliad Douglas Pennant: Derbyniwyd yn lle trethi gan Drysorlys Ei Mawrhydi

ac fe'i cyflwynwyd i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ym 1951

PENRHYN SLATE QUARRY : HENRY HAWKINS (1822-80) ©NTPL / John Hammond

The Douglas Pennant Collection: Accepted in lieu of tax by HM Treasury and

allocated to the National Trust in 1951

FFOWNDRI : PETER PRENDERGAST ©Ystad Peter Prendergast. Cedwir pob hawl. DACS 2008

FOUNDRY : PETER PRENDERGAST ©Estate of Peter Prendergast. All rights reserved. DACS 2008


YR EFAIL - CHWAREL PEN YR ORSEDD : M E THOMPSON ©Amgueddfa Cymru

SMITHY - PEN YR ORSEDD QUARRY : M E THOMPSON ©Amgueddfa Cymru - National Museum of Wales

Y CABAN - IFOR PRITCHARD ©Ystad Ifor Pritchard

CABAN - IFOR PRITCHARD ©Ifor Pritchard's Estate

Diolch i Mandy Roberts am ei chymorth a'i chynghor Thanks to Mandy Roberts for her help and advice



Amgueddfa Lechi Cymru, Parc Gwledig Padarn, Llanberis, Gwynedd. LL55 4TY

☎ 01286 870630 | llechi@amgueddfacymru.ac.uk | www.amgueddfacymru.ac.uk

National Slate Museum Padarn Country Park, Llanberis, Gwynedd. LL55 4TY

☎ 01286 870630 | slate@museumwales.ac.uk | www.museumwales.ac.uk